# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: 25 Tachwedd 2020

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddESS@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat (09.15-09.45)

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.45)

## 2 Papurau i'w nodi

### 2.1 Llythyr gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ynglyn â chraffu ar Trafnidiaeth Cymru

(Tudalennau 1 - 6)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-24-20 - Papur 1 i'w nodi

EIS(5)-24-20- Papur 1a i'w nodi

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**2.2 Llythyr gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ynghylch: Y Diweddaraf ynglyn ag Adroddiad Datgarboneiddio Trafnidiaeth**

(Tudalennau 7 - 9)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-24-20- Papur 2 i'w nodi

**2.3 Llythyr gan y Cadeirydd at y Prif Weithredwr, Banc Datblygu Cymru**

(Tudalennau 10 - 12)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-24-20- Papur 3 i'w nodi

## 3 Craffu Cyffredinol ar Waith y Gweinidog

(09.45-10.45) (Tudalennau 13 - 40)

Ken Skates AS, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

Lee Waters AS, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

Simon Jones, Cyfarwyddwr ar gyfer Seilwaith yr Economi

Sioned Evans, Cyfarwyddwr, Busnes a Rhanbarthau

Alan Woods, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-24-20- Papur 4 Briffio

## Egwyl (10.45-10.55)

## 4 Craffu Cyffredinol ar Waith y Gweinidog

(10.55-11.55)

Ken Skates AS, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

Lee Waters AS, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

Simon Jones, Cyfarwyddwr ar gyfer Seilwaith yr Economi

Sioned Evans, Cyfarwyddwr, Busnes a Rhanbarthau

Alan Woods, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.55)

## 6 Preifat

(11.55-12.15)

Ystyried tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

**Ken Skates AC/AM**
**Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Minister for Economy, Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russel George AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
SeneddEIS@senedd.wales

17 Tachwedd 2020

Annwyl Russell,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Chwefror ynghylch eich sesiwn graffu â Trafnidiaeth Cymru, Network Rail a Gwasanaethau Rheilffordd Trafnidiaeth Cymru. Hoffwn ymddiheuro'n ddiffuant am yr oedi cyn ymateb, a hynny yn sgil y pwysau sydd ynghlwm wrth bandemig COVID-19.

Ers i'r Pwyllgor ofyn y cwestiynau hyn ym mis Chwefror mae'r pandemig wedi creu heriau digynsail i'r sector rheilffyrdd yng Nghymru. O'r herwydd rydym wedi sefydlu perthynas newydd rhwng Trafnidiaeth Cymru, Keolis ac Amey, a fydd yn gweddu'n well i'n gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer dyfodol trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru ar ôl COVID-19. O'r herwydd nid wyf o'r farn y byddai diben cyflwyno atebion manwl i gwestiynau blaenorol y Pwyllgor ar hyn o bryd.


Yn fy natganiad ysgrifenedig diweddar ynghylch dyfodol y rheilffyrdd gwnes gyflwyno'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau ynghylch y model cyflenwi ar gyfer Trafnidiaeth Cymru yn y dyfodol ac mae ar gael yma:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-diweddariad-dyfodol-y-rheilffyrdd

Gwnes hefyd drafod hyn pan fynychais gyfarfod Pwyllgor Craffu y Prif Weinidog ar 22 Hydref er mwyn ateb cwestiynau ynghylch dyfodol gwasanaethau rheilffyrdd, lle roeddech chi hefyd yn bresennol, a gwnes ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 11 Tachwedd.

Byddwn yn barod i ymateb i unrhyw gwestiynau yn ystod fy ymddangosiad pellach gerbron y Pwyllgor yn ddiweddarach y mis hwn.

Yn gywir



**Ken Skates AS**
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ken Skates AC
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

25 Chwefror 2020

Annwyl Ken,

Ar 29 Ionawr 2019, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu gyda Trafnidiaeth Cymru, Network Rail a Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru (Keolis Amey). Edrychodd yr aelodau'n fanwl ar fasnachfraint Cymru a'r Gororau a datblygiad/gwaith ehangach Trafnidiaeth Cymru. Yn dilyn ein sesiwn, mae'r Pwyllgor am gael eglurhad ar nifer o bwyntiau. Rwy'n rhagweld y bydd angen mewnbwn gan Trafnidiaeth Cymru ar gyfer rhai o'r cwestiynau hyn, ond roeddwn i eisiau eich holi chi amdanynt yn gyntaf.

**Trosglwyddo Llinellau Craidd y Cymoedd**

- Sut bydd Trafnidiaeth Cymru yn adrodd ar ei fuddsoddiad a'i wariant ar y Metro a Llinellau Craidd y Cymoedd – o ran buddsoddi mewn uwchraddio'r rhwydwaith yn ogystal â gwariant ar weithredu, cynnal a chadw ac adnewyddu (OMR) yn y dyfodol? Ar hyn o bryd, mae Network Rail a'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd yn adrodd ar fuddsoddiad. Gan fod hwn yn fuddsoddiad cyhoeddus mewn seilwaith hanfodol ar raddfa fawr, mae'r Pwyllgor yn teimlo y dylai data ynghylch gwario ac adrodd ar y buddsoddiad

fod mor agored a thryloyw â phosibl.

- Yn ystod y sesiwn, dywedodd James Price y byddai'n croesawu barn y Pwyllgor ynghylch adrodd ariannol ar fuddsoddiad y Metro. Ym marn y Pwyllgor, fel isafswm, dylai buddsoddiad yn seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd (OMR parhaus a gwella) fod o leiaf mor dryloyw ag y mae ar hyn o bryd trwy adroddiadau ariannol rheoleiddiol Network Rail. Fodd bynnag, rydym yn credu bod trosglwyddo'r ased yn rhoi cyfle i symleiddio ac egluro'r adroddiadau hyn, gan gynnwys adrodd ar berfformiad yn ehangach a sicrhau bod gwybodaeth ar gael ar ffurf sy'n fwy hygyrch i'r cyhoedd.

- Dywedodd James Price wrthym fod TrC a Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod gyda'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd ynghylch opsiynau posibl ar gyfer rheoleiddio Metro De Cymru yn y dyfodol. Byddem yn gofyn ichi ddarparu rhagor o wybodaeth am y trafodaethau hyn, gan gynnwys y rhesymeg dros ystyried rôl ar gyfer y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd, a'r opsiynau rheoleiddio eraill sy'n cael eu hystyried.

### Iawndal i deithwyr

- Gwnaeth y pwyllgor argymhelliad yn flaenorol y dylai Trafnidiaeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i archwilio ffyrdd eraill o ddigolledu teithwyr uwchlaw rhwymedigaethau cytundebol yn ystod cyfnodau o amharu difrifol. Derbyniodd TrC yr argymhelliad hwn. Pan ofynnwyd iddo am y cynnydd ar hyn, hysbysodd James Price y Pwyllgor fod TrC wedi sefydlu grwpiau cwsmeriaid yn ddiweddar ac y byddai TrC yn siarad â nhw am y mater. Fodd bynnag, nododd hefyd fod unrhyw arian y maent yn ei gymryd o'r gyllideb sydd ganddynt eisoes yn dod o'r arian ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol.

- Mae'r Pwyllgor yn nodi sylwadau Mr Price am oblygiadau'r math hwn o iawndal ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol. Fodd bynnag, byddem hefyd yn tynnu sylw at yr effaith ddifrifol iawn ar deithwyr yn sgil y perfformiad gwael parhaus hwn – gan gynnwys, mewn rhai achosion, effaith ariannol ac effaith ar eu cyflogaeth – ac rydym yn pwysleisio unwaith eto fod TrC wedi derbyn ein hargymhelliad blaenorol. Hoffem glywed eich barn ar ddarparu iawndal

ychwanegol i deithwyr sydd wedi wynebu amharu difrifol.

## Tocynnau integredig

- Mae'r Pwyllgor o’r farn bod y cynnydd o ran tocynnau integredig ymhell y tu ôl i lle y dylai fod ac mae angen i hyn fod yn flaenoriaeth. Eglurodd James Price yn y sesiwn nad technoleg oedd yn rhwystro tocynnau integredig. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am safbwynt y Llywodraeth ar docynnau integredig, a'r cynnydd tuag atynt, gan gynnwys manylion y rhwystrau rhag gweithredu a sut mae’r rhain yn cael eu goresgyn? Byddai’r Pwyllgor yn croesawu diweddariadau parhaus ar y mater hwn hefyd. Nodwn, yn wahanol i ddeddfwriaeth ddiweddar Lloegr a'r Alban, na fydd eich Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) arfaethedig yn cynnwys darpariaethau ar gyfer tocynnau.

## Capasiti a threnau newydd

- Fel y gwyddoch, mae problem ar hyn o bryd gyda gorlenwi ar linell Rhymni. Dywedwyd wrth y Pwyllgor i ddisgwyl cynnydd o 30-40% o ran capasiti ar linell Rhymni eleni - sy’n gynnydd mewn capasiti sydd i'w groesawu'n fawr. Yn ogystal â'r effeithiau negyddol amlwg ar deithwyr ar linell Rhymni, mae'r gorlenwi a’r problemau gyda'r trenau dosbarth 37 dros dro, yn cael sgil-effaith negyddol ar rwydwaith ehangach de Cymru. Gan fod Trafnidiaeth Cymru wedi profi oedi difrifol wrth sicrhau cerbydau ychwanegol yn ddiweddar, nid yw'n afresymol ystyried y posibilrwydd na fydd y capasiti newydd hwn yn cael ei gyflawni mewn pryd. Oes gennych chi hyder yn y broses o gyflenwi cerbydau? Os na chaiff y cerbydau eu cyflenwi mewn pryd, sut byddwch yn lliniaru unrhyw oedi ac yn mynd i’r afael â’r broblem gorlenwi a'i sgil-effeithiau yn y tymor byr?

- Mae'r Pwyllgor yn nodi bod TrC yn disgwyl y byddant yn defnyddio trenau Pacer ar y rhwydwaith hyd at fis Gorffennaf, ond bod y sefydliad yn paratoi ar gyfer y posibilrwydd y gallai fod angen iddynt ymestyn hyn os na allant ddod o hyd i gerbydau newydd.  Mae TrC hefyd yn gobeithio cael trenau newydd yn lle’r trenau dosbarth 37 yn ystod y ddau neu dri mis nesaf ond

efallai y bydd angen ymestyn eu cyfnod os oes angen. Fel y gwyddoch, nid yw'r Pacers na'r trenau dosbarth 37 yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar hygyrchedd cerbydau rheilffordd. Er bod y Pwyllgor yn derbyn y byddai cael gwared o'r trenau hyn yn gwaethygu'r problem orlenwi bresennol ar y rhwydwaith, mae'n bryderus iawn fod y ffaith nad ydynt wedi dod o hyd i drenau newydd hygyrch yn cael effaith negyddol ar symudedd pobl anabl ar draws y Cymoedd ac yng Nghaerdydd. Os na ellir cael trenau newydd yn lle'r trenau anhygyrch erbyn diwedd mis Gorffennaf, pa mor hyderus ydych chi y bydd Adran Drafnidiaeth y DU yn rhoi goddefeb bellach yn erbyn y Rheoliadau? Pa gynlluniau wrth gefn sy'n cael eu gwneud ar gyfer y posibilrwydd nad yw TrC yn llwyddo i ddod o hyd i gerbydau mewn pryd ac nad yw'r Adran Drafnidiaeth yn caniatáu estyniad pellach?

- Fel y byddwch yn cofio, roedd adroddiad 'Achosion o darfu ar y rheilffyrdd yn yr hydref' y Pwyllgor, a gyhoeddwyd fis Mawrth diwethaf, yn rhybuddio ynghylch y galw am wasanaethau rheilffordd nad yw'n cael ei ateb yn llawn, a gwnaeth argymhelliad y dylai'r cynlluniau capasiti gadw hyn mewn cof. Yn ystod y sesiwn graffu ar 29 Ionawr, cytunodd James Price gyda'r farn hon, gan nodi er fod TrC yn eithaf uchelgeisiol o ran nifer y bobl yr oeddent yn credu y byddent yn defnyddio'r gwasanaeth yn y dyfodol, eu bod wedi tanbrisio'r twf posibl. Mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai galw nad yw'n cael ei ateb yn llawn arwain at wasanaethau Metro De-ddwyrain Cymru yn aros yn llawn neu'n ddifrifol o orlawn. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn clywed eich barn ynghylch hyn, a pha waith sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r pryderon capasiti hyn.

### Y Gymraeg


- Trafododd y Pwyllgor gyfrifoldebau TrC o ran gofynion y Gymraeg, yn sgil adroddiadau yn y cyfryngau sy'n awgrymu nad yw TrC yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau cyfreithiol. Esboniodd James Price fod rhai o broblemau TrC yn deillio o'r ffaith nad yw'r Rail Delivery Group yn derbyn bod deddfwriaeth yn ymwneud â'r Gymraeg yn gymwys, er enghraifft, i docynnau. Fodd bynnag, mae yna feysydd sydd yn amlwg o fewn rheolaeth TrC ac yn hawdd iawn eu datrys. Mae'r rhain yn cynnwys arwyddion a chyhoeddiadau dwyieithog. Hoffai'r Pwyllgor weld mwy o frys wrth geisio datrys y problemau o ran y ddarpariaeth Gymraeg, y mae cwsmeriaid sy'n

siarad Cymraeg yn anhapus amdano, a hynny am reswm da. Hefyd, hoffai'r Pwyllgor gael manylion am bob un o'r materion a godwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, yn ogystal ag ymateb a dull penodol ar gyfer pob un, maes o law pan gyhoeddir adroddiad y Comisiynydd.

**Arolygon teithwyr**

- Pan ofynnwyd iddo am Arolwg Teithwyr Cenedlaethol Transport Focus, nododd James Price mai rhai o'r pethau rhyfeddaf iddo yw mai'r meysydd lle roeddent yn meddwl eu bod yn llwyddo yw rhai o'r meysydd lle maent wedi gweld sgoriau'n gostwng, ac yn rhai o'r meysydd lle roeddent yn meddwl eu bod yn gwneud yn wael, maent wedi gweld sgoriau'n neidio. Hefyd, dywedodd wrth y Pwyllgor fod TrC yn cynnal tua 600 o arolygon dros gyfnod o flwyddyn i ymchwilio i foddhad cwsmeriaid. Byddai'n ddefnyddiol gwybod mwy am fethodoleg a chanlyniadau'r arolwg a gynhaliwyd gan TrC, gan gynnwys sut mae'r rhain yn cymharu ag Arolwg Teithwyr Cenedlaethol Transport Focus.

Yn gywir,



Russell George AC

Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

**Ken Skates AS/MS**
**Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Minister for Economy, Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
SeneddEIS@senedd.wales

17 Tachwedd 2020

Annwyl Russell,

Yn dilyn fy ymateb a anfonwyd at y Pwyllgor ar 25 Awst, gweler y wybodaeth ddiweddaraf am argymhellion 2, 4 a 7 isod.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y sefyllfa bresennol o ran ei chynlluniau ar gyfer y rhwydwaith seilwaith cerbydau trydan, a phryd y mae'n bwriadu cyhoeddi ei strategaeth ar gyfer cerbydau trydan. Ochr yn ochr â gwybodaeth am seilwaith gwefru, dylai Llywodraeth Cymru hefyd nodi'n glir ei dull o sicrhau bod tacsis / cerbydau hurio preifat a gweithredwyr bysiau eu hunain yn dechrau defnyddio cerbydau trydanol erbyn dyddiad targed y Llywodraeth, sef 2028.

**Ymateb:** Derbyn

**Y dull ar gyfer bysiau dim allyriadau**
Mae'r Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan ar ffurf ddrafft ac yn cael ei hadolygu gan y Llywodraeth gyda'r bwriad o gynnal ymgynghoriad cyhoeddus erbyn diwedd y flwyddyn hon.

Oherwydd cost cychwynnol uchel prynu bysiau dim allyriadau a chost uchel sefydlu seilwaith, cydnabyddir y bydd angen cymorth ar weithredwyr bysiau i drosglwyddo i fflyd sy’n gwbl ddi-allyriad erbyn 2028.

Dros y flwyddyn nesaf, yn ogystal ag ariannu cynlluniau peilot, byddwn yn rhoi cynllun ar waith, gan ymgynghori ag awdurdodau lleol, gweithredwyr bysiau a gweithgynhyrchwyr, i gyflawni'r nod hwn. Bydd y broses hon yn cynnwys ystyried cymhellion i brynu, model lesio a gefnogir gan y Llywodraeth, grantiau ar gyfer seilwaith, cymorth ar gyfer ôl-ffitio ac ymrwymiadau i roi terfyn ar brynu bysiau newydd sy’n defnyddio motor tanio mewnol .

Ategir yr uchelgais hwn hefyd gan addewid Llywodraeth y DU i ddarparu 4,000 o fysiau dim allyriadau yng Nghymru a Lloegr dros y pum mlynedd nesaf.

**Y dull ar gyfer tacsi a cherbydau hurio preifat dim allyriadau**
Oherwydd cost uchel prynu cerbydau dim allyriadau, yn enwedig cerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn, cydnabyddir na fyddant yn fforddiadwy i lawer o’r diwydiant tacsis a

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cherbydau hurio preifat, hyd yn oed ar ôl manteisio ar ôl unrhyw grantiau. Yn y tymor byr rydym yn datblygu cynlluniau ar gyfer 'cynllun rhoi cynnig arni cyn prynu' i ategu buddsoddiadau mewn seilwaith gwefru.

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn ymchwilio i gymhellion fel cynlluniau lesio a benthyciadau, a’r rheoleiddio sydd eu hangen i alluogi'r newid i gerbydau glanach. Byddwn hefyd yn gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru i sicrhau bod y seilwaith gofynnol ar waith i gefnogi'r newid i dacsis dim allyriadau.

Bydd hyn yn darparu opsiynau fforddiadwy i’r diwydiant tacsis a cherbydau hurio preifat, gydag arbedion hirdymor o ran costau cynnal a chadw cerbydau, wrth gyfrannu at amgylchedd glanach drwy ddisodli fflydoedd sy’n defnyddio cerbydau diesel yn bennaf â fflydoedd o gerbydau dim allyriadau.

**Goblygiadau ariannol:** Ni fydd unrhyw oblygiadau cyllidol ychwanegol y tu hwnt i’r hyn a fydd yn cael ei ariannu drwy gyllidebau presennol.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynlluniau ar gyfer datblygu manylebau, safonau a modelau costau hirdymor, sy’n gyson â gweddill y DU, ar gyfer technoleg cerbydau trydan, allyriadau isel i'w defnyddio yng Nghymru, a bwrw ymlaen â datblygu’r manylebau, y safonau a’r modelau hynny. Hoffai'r Pwyllgor hefyd gael gwybod sut y bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu ei chynlluniau â gweithredwyr trafnidiaeth Cymru, er mwyn magu hyder i fuddsoddi mewn technoleg newydd.

**Ymateb:** Derbyn

Cytunwn y dylai’r DU gyfan ymateb i’r mater hwn ar y cyd. Bydd diweddariad ysgrifenedig yn cael ei roi i'r Pwyllgor yn dilyn cyhoeddi cynllun datgarboneiddio trafnidiaeth Llywodraeth y DU a ddisgwylir erbyn diwedd y flwyddyn. Bydd rhagor o fanylion ar gael wrth inni ddatblygu llwybr y sector trafnidiaeth ar gyfer ail Gynllun Cyflawni Carbon Isel Cymru y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2021.

**Goblygiadau ariannol:** Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 7**. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y dylid ystyried targedau datgarboneiddio fel rhan o'i hymateb brys i GOVID-19 i gefnogi gweithrediadau bysiau, a sut y bydd yn manteisio i’r eithaf ar unrhyw fuddion sy'n deillio o'r trefniadau presennol a threfniadau yn y dyfodol gyda gweithredwyr a phartneriaid.

**Ymateb:** Derbyn

Bydd cymorth brys ar gyfer gweithrediadau bysiau yn ystod y pandemig yn helpu i fodloni ein cyllidebau carbon yn y dyfodol, drwy gefnogi’r diwydiant a gwasanaethau bysiau a fyddai, o dan amgylchiadau arferol, yn arwain at lai o allyriadau carbon fesul km fesul teithiwr na theithio mewn car preifat. Rydym yn defnyddio cyllid cymorth brys COVID-19 i alluogi ail-lunio rhwydwaith bysiau Cymru drwy roi rhagor o ddylanwad i'r sector cyhoeddus ar lwybrau a safonau, gan gynnwys safonau sy'n gysylltiedig â lleihau allyriadau carbon.

Hyd yn hyn mae cyllid wedi cael ei ddarparu mewn dwy ran (Chwarter 1, £29 miliwn wedi’i ddyrannu ym mis Mawrth) a'r Cynllun Argyfwng Bysiau (Chwarter 2, £16.8 wedi’i ddyrannu ym mis Mehefin). Mae'r Cynllun Argyfwng Bysiau (BES) wedi'i gynllunio i alluogi ail-lunio rhwydwaith bysiau Cymru drwy roi rhagor o ddylanwad i'r sector cyhoeddus ar lwybrau a

safonau, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr ddangos cynnydd o ran lleihau allyriadau carbon.

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi bod yn gweithio i ddatblygu'r strwythur a'r telerau ar gyfer camau nesaf BES: BES 2 a BES 3 a fydd yn rheoli eu hymddygiad wrth ddarparu gwasanaethau dan gontract a gwasanaethau masnachol, gan gynnwys eu cynnydd o ran lleihau allyriadau carbon.

**Goblygiadau ariannol:** Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ar yr adeg hon.

Byddaf yn anfon rhagor o ddiweddariadau ar yr argymhellion at y Pwyllgor yn gynnar yn 2021.

Yn gywir



**Ken Skates AS/MS**
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales

Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**
—
Welsh Parliament
**Economy, Infrastructure and Skills Committee**

Giles Thorley
Prif Weithredwr, Banc Datblygu Cymru

19 Tachwedd 2020

Annwyl Giles,

**Craffu ar yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2019-20, yr ymateb i Covid-19 a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol**

Mae'r Pwyllgor yn diolch i chi a'ch cydweithwyr am roi o'ch amser, ac am eich atebion yn ystod ein sesiwn graffu flynyddol ar 11 Tachwedd. Roedd yn drafodaeth addysgiadol ac adeiladol iawn, fel arfer. Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r ymdrechion enfawr a wneir gan weithwyr y Banc i ehangu ac esblygu ei weithrediadau i gefnogi busnesau Cymru mewn amgylchiadau heriol iawn.

Roedd ychydig o faterion yn codi o'r sesiwn y cytunodd yr Aelodau i fynd ar eu trywydd gyda chi yn ysgrifenedig:

- Mae dogfen 'ased strategol' y Banc yn nodi'r nod o "[g]reu a diogelu swyddi o ansawdd uwch", ond ni ddarperir dadansoddiad manwl yn yr adroddiad blynyddol diweddaraf o ansawdd y swyddi a gafodd eu creu a'u diogelu yn ystod 2019-20. Mae'r adroddiad blynyddol yn nodi (ar dudalen 12), "Rydym yn gweithio i ddeall a mesur effeithiau cymdeithasol a macro-economaidd ein gweithgaredd ymhellach". Er bod y Banc wedi bod yn casglu data ar gyflogau a'r modd y cafodd y swyddi a grëwyd eu rhannu rhwng y rhywiau, nid yw'r data hyn wedi'u cyfuno i'w dadansoddi. Nododd y Pwyllgor hefyd bwysigrwydd mesurau eraill o ansawdd swyddi, gan gynnwys hirhoedledd a

chyfleoedd i symud ymlaen.

Dywedodd Rhian Elston fod y Banc yn ymwybodol o ganfyddiadau’r Comisiwn Gwaith Teg am nodweddion gwaith teg, ond ei bod yn eithaf anodd mesur gyda data. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod pryder y Banc i beidio â 'gorlwytho' busnesau â cheisiadau am ddata, byddai wedi disgwyl rhagor o gynnydd o ran gallu dangos yn glir ansawdd y swyddi a grëwyd. Mae'n edrych ymlaen at ddadansoddiad manylach o ddata a dadansoddiad o hyn yn cael ei gynnwys yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

- Gofynnodd yr Aelodau am argaeledd ffynonellau cyfalaf, ac mewn ymateb gwnaethoch dynnu sylw at y gofynion brys o ganlyniad i Covid-19, a'r ansicrwydd presennol ynghylch cynlluniau ar gyfer disodli cyllid yr UE - byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael gwybod am unrhyw newidiadau mewn argaeledd ffynonellau cyllid yn y dyfodol.


- Croesawodd y Pwyllgor y wybodaeth a roddwyd gan y Banc am liniaru’r risg sy'n gysylltiedig â'r cynnydd yng nghyflymder a nifer y benthyciadau a ddarperir mewn ymateb i'r pandemig. Mae'r Pwyllgor wedi cydnabod o'r blaen pa mor anodd yw sicrhau cydbwysedd rhwng ymateb yn gyflym i'r angen brys am gymorth busnes ar anterth y pandemig, a gwarchod rhag unrhyw gamddefnydd posibl o arian cyhoeddus. Hoffai'r Pwyllgor i’r pwynt hwn am werth am arian o'r benthyciadau hyn gael sylw manwl yn adroddiad blynyddol nesaf y Banc.

- Yn olaf, gofynnodd y Pwyllgor i'r Banc am ragor o wybodaeth am y rhesymau dros beidio â mynd ar drywydd ailgyllido Cynllun Benthyciad Busnes COVID-19 Cymru (CBBCC), ac roedd hefyd eisiau gwybod mwy am awgrym y Gweinidog o gyfle i ailgyllido llyfr benthyciadau’r Banc nad ydynt yn ymwneud â Covid-19, er mwyn rhyddhau arian i fuddsoddi mewn adferiad. Wrth drafod yn y cyfarfod Pwyllgor, gwnaethoch esbonio pryderon dealladwy ynghylch trosglwyddo benthyciadau CBBCC o bosibl i berchnogion portffolios benthyciadau diegwyddor. Gwnaethoch nodi hefyd na fyddai ailgyllido benthyciadau gyda chymorth cyfalaf trafodion ariannol o

ffynonellau llywodraeth yn caniatáu ailgylchu swm y benthyciadau hynny ymhellach. Byddai'r Pwyllgor yn dal i groesawu rhagor o eglurhad gan y Banc ynghylch ei resymau dros beidio â mynd ar drywydd y syniad o ailgyllido benthyciadau a wnaed dan CBBCC gyda benthycwyr achrededig Cynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes yn sgil y Coronafeirws.

Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at gael y wybodaeth hon, a diolch eto i chi a'ch cydweithwyr am ddod i'r cyfarfod Pwyllgor.

Yn gywir,



Russell George AS

Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon